

# Diweddariad Llechi Cymru Update

Mehefin 2025  
June 2025





Funded by  
UK Government

Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU

# Llewyrch o'r Llechi

£18.6m Llywodraeth y DU / UK Government  
£30m+ cyfanswm prosiect / total project value

Enghraifft o sut mae statws Treftadaeth y Byd wedi cael ei ddefnyddio i ddenu cyllid ychwanegol.

Gwelwch Fwletin Hydref 2024 ar gyfer gwybodaeth gefndirol y prosiect. [Cliciwch yma.](#)

Mae ychydig o gyllid Llewyrch o'r Llechi hefyd wedi'i ddyrannu ar gyfer gwaith cadwraeth yn ardaloedd Dinorwig, Ogwen a Ffestiniog.

## Hwb Dinorwig

- Ailddatblygiad yr Amgueddfa Lechi: mae'r Amgueddfa bellach wedi cau tra mae'r gwaith ailddatblygu ar waith, mae'r contractwyr wedi'u apwyntio a mae'r gwaith cychwynnol wedi dechrau.
- Amgueddfa ar y Lon ar waith yn sicrhau fod gan yr Amgueddfa bresenoldeb ar draws y tirwedd llechi yn ystod cyfnod yr ailddatblygiad.
- Mae cyfres o welliannau i Parc Gwledig parc Padarn ar waith, yn cynnwys creu bloc croeso newydd gyda cyfleusterau i ymwelwyr megis toiledau a dehongli. Mae'r gwaith yn mynd rhagddi ac yn symud ymlaen yn dda.
- Mae gwaith cadwraeth ar Inclén A a'r Cwt Weindio wedi ei gwblhau.
- Fe fydd tendrau yn cael eu dychwelyd yn fuan ar gyfer gwaith adnewyddu Sied y Fire Queen, ac Hafod Owen

An example of how World Heritage status has been used to attract additional funding.

See November 2024 bulletin for background information on the project: [click here.](#)

Some of the Llewyrch o'r Llechi funding has also been allocated for conservation works as well the following regeneration projects.

## Dinorwig Hub

- Redevelopment of the National Slate Museum: the museum is now closed whilst redevelopment work takes place, the contractors have been appointed and enabling works are underway.
- 'Museum on the Move' is now up and running and ensuring the Museum has a presence accross the Slate Landscape during the redevelopment period.
- A programme of Improvements to Parc Padarn Country Park including the creation of a new welcome block with visitor facilities such as toilets and interpretation which is underway and progressing well.
- Conservation work is completed on the A1 Incline and winding house.
- Tenders will soon be released for the renovation of the Fire Queen Shed, and Hafod Owen.



Inclén A a Chwt Weindio Parc Padarn

A Incline and Winding House, Parc Padarn



Funded by  
UK Government  
Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU

## Llewyrch o'r Llechi

### Hwb Ogwen

- Systemau sain a golau newydd, a gwaith gwrrhsain yn [Neuadd Ogwen](#) (Bethesda) wedi eu gosod, mae'r lleoliad bellach yn weithredol ac yn cynnal llu o ddigwyddiadau yn defnyddio'r dechnoleg newydd.
- Mae gwaith yn parhau ar salfe Yr Hen Bost, Bethesda, gyda contractwyr ar y safle ac yn symud ymlaen yn dda.
- Mae gwelliannau i'r llwybrau cerdded a beicio wedi gweld gosod pont newydd ym Mhorth Penrhyn, ac mae gwaith yn mynd rhagddi i osod twnel gwartheg sydd yn galluogi gwaredu nifer o giatiau ar Lon Las Ogwen er mwyn gwella hygyrchedd.



Neuadd Ogwen, Bethesda

### Ogwen Hub

- New sound and lighting system and soundproofing at [Neuadd Ogwen](#) (Bethesda) has now been installed, the venue is fully operational and hosting a vast array of events utilising the new technology.
- Work is ongoing at Yr Hen Bost, Bethesda with the contractors on site and progressing well
- Improvements to footpath and cycle routes has seen the installation of a new bridge at Port Penrhyn, and work is underway on the new underpass for cattle which will enable the removal of several gates on Lon Las Ogwen in order to improve accessibility.



Yr Hen Bost, Bethesda

### Hwb Ffestiniog

- Mae gwaith adfer Aelwyd yr Urdd bron a'i gwblhau.
- Mae tendrau wedi eu derbyn ar gyfer 22 a 23 Church Street, i'w trawsnewid i ofodau cymunedol a dod a dau siop hanesyddol yn ol i ddefnydd.
- Mae Llwybr Llechwedd bellach wedi ei gwblhau ac yn cynnig llwybr beicio a cherdded diogel rhwng Chwarel Llechwedd a Blaenau Ffestiniog.

### Ffestiniog Hub

- Renovation work is almost complete on Aelwyd yr Urdd.
- Tenders have been received for the contract to upgrade 22 and 23 Church Street, to transform them into community spaces and bring two historic shops back into use.
- Llwybr Llechwedd is now complete and offers a safe pedestrian and cycle route between Llechwedd Quarry and Blaenau Ffestiniog.

Fel rhan o rhaglen Llewyrch o'r Llechi, mae pecyn cefnogi ein prif gymunedau llechi hefyd mewn lle.

- Gwelliannau canol y dref wedi cynnwys gosod meinciau clyfar wedi eu pweru gan solar sydd yn galluogi creu pecynnau awdio yn rhannu hanes a diwylliant lleol gyda ymwelwyr, rydym hefyd wedi cychwyn ar y gwaith o osod arwyddion cyfeirio newydd ar draws y prif gymunedau, yn ogystal a biniau traddodiadol ac ailgylchu wedi'u brandio yn y cymunedau. Fe fydd stribedi llechi yn cael eu gosod yn Nhywyn, Porthmadog a Phenygroes dros yr wythnosau nesaf, yn dilyn ymgysylltu gyda cynrychiolwyr cymunedol am y geiriau i'w naddu ar y llechi sydd yn cynrychioli diwylliant unigryw bob cymuned.
- Mae sawl darn o gelf cyhoeddus wedi eu cwblhau (Blaenau Ffestiniog, Penygroes, Porthmadog a Tywyn). Cafodd ymarferwyr creadigol eu comisiynu i weithio gyda cymunedau i gyd-greu y darnau celf yma.

As part of the Llewyrch o'r Llechi programme, a package of support is also in place for our main communities across the Slate Landscape.

- Town centre improvements have seen the installation of solar powered smart benches which will allow for audio interpretation to be installed, sharing local history and culture with users, we have also begun the installation of new pedestrian signage accross the main communities, along with branded recycling and litter bins. Slate inserts will be installed in Tywyn, Porthmadog and Penygroes over the coming weeks, following consultation with community representatives to choose the words to be engraved on the slate bands that best represents the individual culture of each community.
- A number of public artworks have come to fruition (Blaenau Ffestiniog, Penygroes, Porthmadog and Tywyn). Creative practitioners were commissioned to work with local communities to co-create these Slate Landscape-themed artworks



Gwaith celf gyhoeddus public artwork, Tywyn



Gwaith celf gyhoeddus public artwork, Porthmadog



Gwaith celf gyhoeddus public artwork, Blaenau Ffestiniog

# LleCHI LleNI

Ein Safle Treftadaeth y Byd, Ein Balchder, Ein Dyfodol  
Our World Heritage Site, Our Pride, Our Future

- Enghraift bellach o ddefnyddio Statws Treftadaeth y Byd fel cyfrwng i sicrhau cyllid ychwanegol i gefnogi cymunedau yn y dirwedd llechi
- Prosiect £2 filiwn dros 5 mlynedd (2024 - 2029) - grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol
- Gweler bwletin Hydref 2024 am wybodaeth gefndirol ar y prosiect: [cliciwch yma](#)
- Mae'r rhaglen hon o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar y gweill. Mae rhai gweithgareddau mor boblogaidd fel bod yn rhaid i ni drefnu digwyddiadau ailadroddus
- Hyd yn hyn mae 1,611 o bobl wedi cymryd rhan yn ein gweithgareddau wyneb yn wyneb (Medi 2024 - Mehefin 2025).

- A further example of using World Heritage Status as a vehicle for securing additional funding to support communities in the slate landscape
- £2million project over 5 years (2024 - 2029)
  - National Lottery Heritage Fund grant
- See October 2024 bulletin for background information on the project: [click here](#)
- This programme of events and activities is underway. Some activities are so popular we are having to organise repeat events
- So far 1,611 people have taken part in our in-person activities (Sept 2024 - June 2025).



## Teithiau Cerdedd 'Troedio'r Tir'

- Taith gerdded dywys 'Y Doctor Dail' yng nghwmni Catrin Roberts ym Mlaenau Ffestiniog
- Taith gerdded dywys Cwm Ystradlllyn yng nghwmni Dr Dafydd Gwyn
- Taith gerdded dywys Tylwyth Teg a Chwedloniaeth ardal Chwarel Dinorwig gyda Gwyn Edwards



Taith cerdded guided walk, Cwm Ystradlllyn

"Roedd cyffwrdd a casglu a blasu yn cysylltu ni i'r tirwedd. Roedd cerdded yn agos i tirwedd llechi a trafod profiad y gweithwyr yn creu teimad o gysylltu. Roedd plethu hanes pobl a hanes y dail yn dda."

"Fel person sydd yn dod o ardal chwarelyddol, mi oni yn teimlo yn gartrefol iawn. Ond mae hi yn wastad yn braf cael dysgu am ardaloedd eraill."



Taith cerdded guided walk, Blaenau Ffestiniog

## 'Troedio'r Tir' Guided Walks

- Guided walk 'Y Doctor Dail' with Catrin Roberts in Blaenau Ffestiniog
- Guided walking tour of Cwm Ystradlllyn with Dr Dafydd Gwyn
- A guided Tylwyth Teg walk, recounting the folktales of the Dinorwig Quarry area with Gwyn Edwards



Taith cerdded guided walk Dyffryn Peris

"As someone new to living in Blaenau, the walk gave me a further insights into the town's history, and fabric, that was appreciated."

"I enjoyed sitting on the incline listening to Dafydd. It was nice to be sitting on the environment we were learning about."

"Overall a really enjoyable learning experience delivered by a well informed and friendly team."



Taith cerdded guided walk Dyffryn Peris

## Llesiant Llechi

- Bu Grwp Brodio Bont yn brysur iawn yn creu brodwaith yn seiliedig ar y Dirwedd Llechi. Bydd y gwaith yn cael ei arddangos ym Mhant Du a Storiel yn 2025 a 2026.
- Cafodd plant ysgolion cynradd ardal Dyffryn Nantlle gyfle i ddysgu am dechnegau'r ffotograffydd Carwyn Rhys Jones a chreu gwaith eu hunain yn portreadu'r hyn sy'n eu gwneud yn hapus.



Grwp Brodio Bont Embroidery Group



Gweithdai Carwyn Rhys Jones Workshops, Dyffryn Nantlle

## Wellbeing activities

- Brodio Bont Embroidery Group have been very busy creating an embroidery based on the Slate Landscape. The work will be exhibited in Pant Du and Storiel in 2025 and 2026.
- Primary school children in the Dyffryn Nantlle area had the opportunity to learn about the techniques of photographer Carwyn Rhys Jones and create their own work portraying the things that make them happy.



## Rhaglen Grantiau Cymunedol LleCHI LleNI

Mae ein rhaglen grantiau cymunedol yn cynnig hyd at £10,000 i gefnogi prosiectau gan grwpiau cymunedol sydd yn:

- annog balchder lleol yn nhreftadaeth y STyB,
- hybu ymgysylltiad cymunedol,
- gwella lles a datblygu sgiliau trigolion lleol.

Mae blaenoriaeth i grwpiau sydd ddim wedi cael cyfle i elwa o gronfeydd eraill yn y dirwedd llechi ers y dynodiad.

Yn rownd gyntaf y gronfa (dyddiad cau 21 Mawrth), derbynwyd 29 cais. Gweler dros y dudalen tabl yn dangos y grantiau a ddyranwyd.

Hyd yma rydym wedi dyrannu £84,244.11 i 15 grwp cymunedol ar draws y Dirwedd Llechi.

Mae £58,255.89 i'w ddyrannu yn y rowndiau nesaf. Dyddiad cau rownd dau yw 20 Mehefin.

## LleCHI LleNI Community Grants Programme

Our community grants programme offers up to £10,000 to support projects by community groups that:

- encourage local pride in the heritage of the WHS,
- promote community engagement,
- improve the well-being and develop the skills of local residents.

Priority is given to groups that have not had the opportunity to benefit from other funds in the slate landscape since the designation.

During the first round of the fund (closing date 21 March), 29 applications were received. See overleaf a table showing the grants allocated.

To date we have allocated £84,244.11 to 15 community groups across the Slate Landscape.

There is £58,255.89 to be allocated in the next rounds. The closing date for round two is 20 June



Grŵp / Group	Prosiect / Project	Grant
Cyfeillion Cae'r Gors	Cofio Kate	£5,675.00
Menter Tŷ'n Llan	Llechi Ty'n Llan	£6,105.00
Neuadd Gymuned Talysarnau	Trysorau Talsarnau	£4,788.35
Y Dref Werdd	Criw Cwiltio	£950.00
Cyfeillion Croesor	Mapio'r Gymuned	£10,000.00
Partneriaeth Ogwen a Storiol	Prosiect ymgysylltu'r ifanc hefo safle'r Hen Bost	£300.00
CARN	Helfa LleChi Caernarfon	£9,840.00
CPD Talysarn Celts	'Pen Llifia' – Wal ddehongli treftadaeth	£9,300.00
Madog Walks Group	Treftadaeth Penrhyn	£1,000.00
Menter Iaith Gwynedd a Cwmni Darganfodol	Cefn Du: Y Chwareli Coll	£4,950.00
Seindorf Arian Abergynolwyn	Datblygu Seindorf Abergynolwyn	£2,010.50
Cyfeillion Talysarn a Nantlle	Dathlu treftadaeth Nantlle Heritage	£4,210.00
Neuadd Bentref Rhiwlas	Crwydro trwy Llwybrau Llechi	£985.00
Gwasanaeth Awyr Agored yr Urdd	DysgUrdd Tu Allan i'r Dosbarth - Cynefin y Chwareli	£9,600.00
Pwyllgor Pentra Deiniolen	Cryfhau Cymuned Deiniolen a'r dalgylch	£7,000.00
Cymdeithas Diogelu'r Gerlan (Pwyllgor Caban Gerlan)	Dathlu Treftadaeth Chwarelyddol Gerlan	£7,530.26

## Plant a phobl ifanc

- Rhwng Mawrth a Mehefin 2025 mae Swyddog Prosiect Dysgu a Datblygu Sgiliau LleCHI LleNI wedi cynnal gweithdai mewn 10 ysgol gynradd yn y Dirwedd Llechi ar y cyd efo partneriaid. Mae ffilmiau o'r ymweliadau ar gael ar [ein sianel YouTube](#)
- Mae'r rapiwr a bît-bocsiwr Cymraeg, Mr Phormula, wedi ymweld â dysgwyr Cymraeg ifanc yn unedau trochi iaith yn ysgolion Tywyn, Tryfan ac Eifionydd er mwyn creu traciau sain yn defnyddio geiriau sy'n gysylltiedig efo dreftadaeth llechi.
- Mae adnoddau i blant ac ysgolion ar gael ar wefan Llechi Cymru yn fan hyn: [Barddoniaeth](#), [Caneuon](#), [Lliwio](#), [Mapiau](#).
- Mae 1,097 o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau fel rhan o'r prosiect.

## Children and Young People

- Between March and June 2025 the LleCHI LleNI Learning and Skills Development Project Officer has held workshops in 10 primary schools in the Slate Landscape in collaboration with partners. Films of the visits are available on [our YouTube channel](#)
- The Welsh rapper and beat boxer, Mr Phormula, has visited young Welsh learners in language immersion units in Tywyn, Tryfan and Eifionydd secondary schools, in order to create soundtracks using words associated with slate heritage.
- Resources for children and schools are available on the Llechi Cymru website here: [Poetry](#), [Songs](#), [Colouring](#), [Maps](#).
- 1,097 children and young people have taken part in activities as part of the project.



## Gwyl Bêl Droed y Llechi

Roedd caeau chwarae 'Y Gloddfa Gai', Talysarn yn llawn bwrlwm yn ddiweddar wrth i dros 200 o blant o rai ardaloedd chwarelyddol Gwynedd ddod ynghyd mewn gwyl bêl droed arbennig.

Roedd yr wyl wedi ei threfnu gan brosiect LleCHI LleNI Cyngor Gwynedd, i ddathlu agoriad swyddogol caeau pêl droed Clwb Pêl Droed Talysarn Celts ar ei newydd wedd, â'r cysylltiad hanesyddol rhwng chwarelwyr y dyffrynnoedd llechi a'r gêm bêl-droed.

Gwelwyd deuddeg ysgol gynradd yn cymryd rhan, gyda chynrychiolaeth o flynyddoedd 5 a 6 yn chwarae mewn twrnament 5 bob ochr. Yn ogystal â'r gemau, roedd pob ysgol wedi paratoi gwybodaeth am ffigwr dylanwadol lleol gyda chysylltiad â'r diwydiant llechi, gyda'r cyfraniadau'n cael eu harddangos yn adeilad y clwb.

Un o uchafbwyntiau'r pnawn oedd ymweliad Rhian Wilkinson, Rheolwr Tîm pêl droed Merched Cymru a ddaeth heibio yn dilyn ei chyhoeddiad o'r garfan bêl droed Merched Cymru ar ben Yr Wyddfa yn gynharach yn y dydd.

## Slate Football Festival

The playing fields of 'Y Gloddfa Gai', Talysarn were bustling recently as a gathering of over 200 children from some of Gwynedd's quarrying areas came together for a special football festival.

The festival had been organised by Cyngor Gwynedd's LleCHI LleNI project, to celebrate the official opening of the newly refurbished Talysarn Celts Football Club football pitches, and the historical connection between the quarrymen of the slate valleys and the game of football.

Twelve primary schools took part, with representation from years 5 and 6 playing in a 5-a-side tournament. In addition to the games, each school had prepared information about a local influential figure with a connection to the slate industry, with the contributions displayed in the club building.

The children were also given the opportunity to commentate on the games under the guidance of historian and football commentator Meilyr Emrys who ran workshops with the children during the day.



# Safle Treftadaeth y Byd

## World Heritage Site

- Cliciwch yma yna cliciwch ar 'Cofnodion Bwrdd Partneriaeth' i weld y set mwyaf diweddar o gofnodion. Gallwch hefyd weld cofnodion cyfarfodydd blaenorol
- Mae Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru wedi cael ei ddewis i fod yn rhan o gais UK National Commission i Gronfa Newid Hinsawdd sydd yn edrych ar sefydlu Rhwydwaith Newid Hinsawdd Cymru, gyda Llechi Cymru yn cael ei ddewis fel safle peilot o fewn y cynnig.
- Cynhaliwyd ein Gwiethdy Thematig cyntaf gyda rhanddeiliaid allweddol, yn edrych ar ddehongli y Safle Treftadaeth y Byd, a sut i greu rhwydwaith i gefnogi a hyrwyddo yr ystod eang o safleoedd, partneriaid ac atyniadau sydd yn rhan o'n stori llechi.

- Click [here](#) then click 'Partnership Board Minutes' to see the most recent set of minutes. You can also view the minutes of past meetings
- The Slate Landscape of Northwest Wales invited to be part of a UK National Commission application to the Climate Change Fund looking at establishing a Welsh Climate Change Network, with Llechi Cymru being selected as a pilot site within the proposal.
- Our first Thematic Workshop was held with key stakeholders, looking at the interpretation of the World Heritage Site, and how we create a network to support and promote the wide range of sites, partners and attractions that are part of the slate story.



Gwiethdy Thematig Llechi Cymru Thematic Workshop

# Digwyddiadau Llechi Cymru yn y Dyfodol

## Future Llechi Cymru Events

Am fwy o wybodaeth am ddigwyddiadau, dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:  
[@llechicymru](#)

Follow us on social media for all the latest information on upcoming events:  
[@llechicymru](#)



[www.llechi.cymru](#)

[Llechi@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Llechi@gwynedd.llyw.cymru)

Mis Gorffennaf

July

- 18/07: Ymweliad Ysbyty Chwarel Penrhyn, Bethesda  
Penrhyn Quarry Hospital Visit, Bethesda
- 19/07: Amgueddfa Deithiol, Llanberis  
Mobile Museum, Llanberis
- 24/07: Ymweliad Ysbyty Chwarel Penrhyn, Bethesda  
Penrhyn Quarry Hospital Visit, Bethesda

# Digwyddiadau Llechi Cymru yn y Dyfodol

## Future Llechi Cymru Events

Mis Awst

August

- 01/08: Ymweliad Ysbyty Chwarel Penrhyn, Bethesda  
Penrhyn Quarry Hospital Visit, Bethesda
- 02/08: Panel Trafod, Eisteddfod Wrecsam  
Discussion Panel, Eisteddfod Wrecsam
- 03/08: Gweithdy bît bocsio gyda Ed Holden, Eisteddfod Wrecsam  
Beat boxing workshop with Ed Holden, Eisteddfod Wrecsam
- 8-15/08: Pwytho Port - creu map brodwaith o Borthmadog, Ffiws, Porthmadog  
Pwytho Port - creating a quilted map of Porthmadog, Ffiws, Porthmadog
- 15/08: Ysgol Goedwig - Parc y Moch, Bethesda  
Forest School, near Bethesda
- 16/08: Amgueddfa Deithiol, Bethesda  
Mobile Museum, Bethesda
- 23/08: Troedio'r Llwybr Llechi efo Steve Williams, Cylchdaith Llanberis  
Slate Trail Trek with Steve Williams, Llanberis Circular
- 25/08: Amgueddfa Deithiol, Cwmystadlllyn  
Mobile Museum, Cwmystadlllyn
- 26/08: Chwedlau, caneuon a chrefftau gyda Mair Tomos Ifans, Chwarel Lechi Llanfair.  
Folktales, songs and crafts with Mair Tomos Ifans, Llanfair Slate Caverns

# Digwyddiadau Llechi Cymru yn y Dyfodol

## Future Llechi Cymru Events

Mis Medi  
September

- 06/09: Troedio'r Llwybr Llechi efo Steve Williams, Cylchdaith Rhosgadfan  
Slate Trail Trek with Steve Williams, Rhosgadfan Circular
- 09/09: Sesiwn Celf Natur, Llyn Mair, Maentwrog  
Nature Art Session - Llyn Mair, Maentwrog
- 13/09: Amgueddfa Deithiol, Tywyn  
Mobile Museum, Tywyn
- 20/09: Diwrnod Cofio Kate Roberts - Rhosgadfan  
Remembering Kate Roberts - Rhosgadfan
- 20/09: Amgueddfa Deithiol, Blaenau Ffestiniog  
Mobile Museum, Blaenau Ffestiniog
- 27/09: Gweithdy Celf efo Jŵls Williams, Nantlle  
Multi Medium Art Workshop with Jŵls Williams, Nantlle